

# CYNGOR GWYNEDD

## CYLLIDEB 2025/26

Adran Cyllid  
[www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)



## MYNEGAI

---

	<b>Tudalen</b>
Rhagair gan yr Aelod Cabinet Cyllid a'r Pennaeth Cyllid	1
Cyllideb Gweithwyr 2025/26	2
Y Gyllideb Refeniw 2025/26	
Crynodeb	3
Addysg	5
Gwasanaethau Corfforaethol	17
Cyllid	20
Economi a Chymuned	23
Oedolion, Iechyd a Llesiant	29
Busnes a Chomisiynu Gofal	35
Plant a Chefnogi Teuluoedd	38
Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd	42
Amgylchedd (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth, Cefn Gwlad, Gwastraff ac Ailgylchu)	47
Tai ac Eiddo	51
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	54
Corfforaethol	56
Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru	58
Y Gyllideb Gyfalaf 2025/26	59

## CYLLIDEB CYNGOR GWYNEDD 2025/26

### Rhagair gan yr Aelod Cabinet Cyllid a'r Pennaeth Cyllid

Yn gyntaf, caredm unwaith eto eleni ddiolch i'r holl staff perthnasol am y gwaith o lunio cyllideb 2025/26 Cyngor Gwynedd, ac i'r holl Aelodau a gyfrannodd i'r broses. Rhoddwyd ystyriaeth i'r gyllideb ddrafft, gan gynnwys yr angen i ddarganfod arbedion pellach, gan fwyafrif o aelodau'r Cyngor mewn sesiwn briffio ar y sefyllfa ariannol a chyllideb 2025/26 a gynhaliwyd ar 28 Ionawr. Bu trafodaethau manwl pellach wedyn yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Cabinet a'r Cyngor Llawn wrth osod y gyllideb yma.

Pan gyhoeddwyd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2024, Cyngor Gwynedd oedd yr awdurdod lleol a dderbyniodd y setliad ariannol ail-waethaf o safbwynt canran y cynnydd, sef 3.1%. Ar sail rhagolygon oedd wedi'u cyhoeddi gan Dadansoddi Cyllid Cymru yn dilyn Cyllideb Canghellor y Trysorlys ym mis Tachwedd 2023, wrth baratoi Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025/26 hyd 2027/28, roeddem wedi rhagdybio na fyddai unrhyw gynnydd yn y setliad ac y byddai'r Cyllid Allanol Cyfun i Gyngor Gwynedd yn aros yn fflat o ran arian parod ar gyfer 2025/26. Felly yn hynny o beth roedd y setliad drafft yn well na'r hyn yr oeddem wedi'i ofni.

Wedi cyhoeddi'r setliad drafft, bu lobiö llwyddiannus gan nifer o awdurdodau (rhai gwledig yn bennaf), ac roedd yn beth rhyddhad fod y Llywodraeth wedi gosod llawr ar ganran y cynnydd; erbyn y gyllideb derfynol derbyniodd Cyngor Gwynedd gynnydd o 3.8%. Gan fod yr arian ychwanegol hwn wedi cael ei gyhoeddi yn hwyr yn y dydd (wedi i'r adroddiad ar y Gyllideb fynd gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio), penderfyniad y Cyngor oedd defnyddio'r arian ychwanegol i ariannu bidiau un-tro. Mae'r Cabinet wedi penderfynu ar y bidiau hyn yn ei gyfarfod ar 11 Mawrth 2025.

Dim ond bidiau parhaol cwbl anorfod yr ydym wedi gallu eu hariannu eto eleni, a hynny gan roi sylw penodol i'r gwasanaethau sy'n dangos gorwariant cyson dros sawl blwyddyn, sy'n awgrymu nad yw'r ddarpariaeth gyllidebol yn ddigonol. Yn y cyd-destun hwnnw, mae cyfanswm y Gofynion Gwario Ychwanegol sydd wedi'u hystyried yn y gyllideb derfynol, ar ôl ystyried gwerth y bidiau un-tro, yn £25.75 miliwn. Yn gynwysedig yn y ffigwr hwn y mae chwyddiant cyflogau o £8.6 miliwn, chwyddiant arall o £1.7 miliwn a £7.7 miliwn ar gyfer 'bidiau' cwbl anorfod. Cyhoeddodd y Canghellor yn natganiad y Gyllideb ar gyfer 2025/26 y bydd addasiad i'r trothwy ar gyfradd yswiriant gwladol a delir gan gyflogwyr. Mae'r gyllideb hon wedi'i gosod ar y sail y bydd y gost yn cael ei hariannu'n rhannol gan y Llywodraeth, ond bydd yr iawndal y byddwn yn ei dderbyn gan y Llywodraeth oddeutu £1 miliwn yn brin o'r gwir gost.

Ar ôl ystyried cynnydd yng Ngrant y Llywodraeth a'r Gofynion Gwario Ychwanegol, roedd bwlch gweddilliol o £109.2 miliwn, ac mae hwnnw'n cael ei lenwi drwy gyfuniad o'r Dreth Gyngor ac arbedion ychwanegol.

Gan fod cynlluniau arbedion oedd wedi'u cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol eisoes wedi cael eu hystyried yn y gyllideb, gwerth £750k o'r arbedion hanesyddol a newydd sydd yn cyfrannu at lenwi'r bwlch ariannol yn 2025/26. Canlyniad hynny yw bod bwlch gweddilliol o £108.4 miliwn i'w lenwi o'r Dreth Gyngor, sy'n golygu cynyddu'r Dreth Gyngor ar aelwydydd unigol o 8.66%. Mae hyn yn gynnydd wythnosol o £2.92, neu £152.02 yn flynyddol, gyda threth Band D o £1,907.49 ar gyfer 2025/26.

Nid yw'n rhoi unrhyw bleser na boddhad i ni gynnig cymaint o gynnydd yn y Dreth Gyngor mewn cyfnod lle mae cymaint o'n trigolion yn brwydro yn erbyn costau byw yn cynyddu yn sylweddol, ond mae'n bwysig i ni ystyried fod cyfraddau chwyddiant yn parhau i fod yn gymharol uchel ac rydym ni fel Cyngor felly yn wynebu costau uwch hefyd, fel y nodir uchod.

Yn gyffredinol, bu rhagdybiaethau darbodus wrth ystyried risgiau am grantiau penodol, chwyddiant, a lefelau incwm, tra rydym ni wedi ail-asesu'n ofalus ein gallu i gyflawni arbedion. Pan dderbyniodd gymeradwyaeth yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 6 Mawrth 2025, roedd y gyllideb ddilynol yn amcangyfrif teg o anghenion gwario ac incwm y Cyngor ar gyfer 2025/26.

**CYLLIDEB GWEITHWYR 2025/26**

---

	<b>Llawn Amser</b>	<b>Rhan Amser</b>
Addysg		
- Athrawon	772	342
- Eraill	176	1,951
Gwasanaethau Corfforaethol	102	43
Cyllid	205	16
Economi a Chymuned	95	122
Oedolion, Iechyd a Llesiant	302	745
Busnes a Chomisiynu Gofal	48	18
Plant a Chefnogi Teuluoedd	276	180
Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd	417	37
Amgylchedd (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth, Cefn Gwlad, Gwastraff ac Ailgylchu)	354	22
Tai ac Eiddo	158	54
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	29	12
Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru	258	6
Cwmni Byw'n Iach Cyf	73	96
<b>Cyfanswm</b>	<b><u>3,265</u></b>	<b><u>3,644</u></b>

## Y GYLLIDEB REFENIW 2025/26

Mae'r tudalennau canlynol cynnwys gwariant y gwahanol adrannau yn 2025/26.


### CRYNODEB

	£'000
Gwariant Gros - Adrannau	611,693
Llai - Grantiau'r Llywodraeth, Cyfraniadau - Incwm Arall	166,886 84,205
	<b>360,602</b>


### GWARIANT YR ADRANNAU

	Gros £'000	%	Net £'000	%
Addysg	153,047	25.02	124,772	34.60
Gwasanaethau Corfforaethol	9,154	1.50	8,130	2.25
Cyllid	13,049	2.13	9,207	2.55
Economi a Chymuned	44,577	7.29	6,102	1.69
Oedolion, Iechyd a Llesiant	112,023	18.31	82,983	23.01
Busnes a Chomisiynu Gofal	5,411	0.88	3,146	0.87
Plant a Chefnogi Teuluoedd	36,081	5.90	26,076	7.23
Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd	35,578	5.82	18,906	5.24
Amgylchedd (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth, Cefn Gwlad, Gwastraff ac Ailgylchu)	38,203	6.25	18,645	5.17
Tai ac Eiddo	26,305	4.30	12,981	3.60
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	3,433	0.56	2,844	0.79
Corfforaethol - Budd-daliadau	48,344	7.90	11,552	3.20
Corfforaethol - Eraill	33,850	5.53	29,243	8.11
Premiwm Treth Cyngor - Cyfraniad i Gronfa	6,000	0.98	6,000	1.66
Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru	46,638	7.62	15	0.00
	<b>611,693</b>	<b>100.00</b>	<b>360,602</b>	<b>100.00</b>

**Gwariant Gros**



**Incwm**



**ADDYSG**

**Cyllideb  
2025/26  
£'000**

**CYLLIDEB UNIGOL YSGOLION**

Cyllideb wedi ei ddatganoli i'r ysgolion. Rheolir gan Gyrff Llywodraethwyr Ysgolion.  
Caiff y gyllideb ei ddyrannu i'r ysgolion yn ôl fformiwla.

Ysgolion Cynradd - yn cynnwys Addysg Cynradd Ysgolion Dilynol Bro Idris a Godre'r Berwyn <b>(ISB Uniongyrchol)</b>	Gwariant Incwm	49,519 (20) <u>49,499</u>
--	-------------------	---------------------------------

Ysgolion Cynradd	
Nifer o Ysgolion Cynradd	78
+ 6 safle Cynradd Ysgol Dilynol	6
Ysgol Bro Idris / Ysgol Godre'r Berwyn	
Nifer y Disgyblion (c.ll.a)	8,405
Nifer yr Athrawon yn y Dyraniad	337
Cymhareb Disgybl/Athro	24.94:1
Nifer Athrawon	
Llawn Amser:	327
Rhan Amser:	185
Nifer Staff Cefnogol:	
Llawn Amser:	4
Rhan Amser:	656
Unedau Meithrin	

Ysgolion Uwchradd - yn cynnwys Addysg Uwchradd Ysgolion Dilynol Bro Idris a Godre'r Berwyn <b>(ISB Uniongyrchol)</b>	Gwariant Incwm Incwm - Grant Ôl 16	52,156 (2,226) (4,634) <u>45,296</u>
--	--	---

Ysgolion Uwchradd	
Nifer o Ysgolion Uwchradd	12
+ 2 safle Uwchradd Dilynol	2
Ysgol Bro Idris / Ysgol Godre'r Berwyn (Heb gynnwys chweched dosbarth)	
Nifer y Disgyblion	6,676
Nifer yr Athrawon yn y Dyraniad	381
Cymhareb Disgybl/Athro	17.52:1
Nifer Athrawon	
Llawn Amser:	363
Rhan Amser:	151
Nifer Staff Cefnogol:	
Llawn Amser:	88
Rhan Amser:	206

Ysgolion Arbennig <b>(ISB Uniongyrchol)</b>	Gwariant	<u>6,205</u> <u>6,205</u>
---	----------	------------------------------

Ysgolion Arbennig	
Nifer o Ysgolion	2
Nifer o Leoedd	233
Nifer yr Athrawon	
Llawn Amser:	35
Rhan Amser:	4
Nifer Staff Cefnogol:	
Llawn Amser:	4
Rhan Amser:	125

<b>CYFANSWM - CYLLIDEB UNIGOL YSGOLION (ISB UNIONGYRCHOL)</b>	<u><u>101,000</u></u>
---	-----------------------

**ADDYSG**

**Cyllideb  
2025/26  
£'000**

**ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH**

Uned Rheolaeth Addysg	Gwariant	965	Cyllideb ar gyfer rheolaeth yr adran yn cynnwys y Pennaeth Adran, Penaethiaid Cynorthwyol a Swyddog Gweithredol i'r Pennaeth Addysg. <b>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</b> Llawn Amser: 9
	Incwm	(75)	
	Incwm - Ad-daliadau	(95)	
		<u>796</u>	
Pensiwn Hanesyddol a Diswyddiadau Athrawon	Gwariant	1,728	Cronfa ar gyfer costau ymdeol cynnar hanesyddol athrawon ynghyd â chostau diswyddo gormodol.
		<u>1,728</u>	
Trwyddedau Systemau Addysg	Gwariant	178	Darpariaeth ar gyfer cytundebau systemau gwybodaeth graidd - meddalwedd systemau addysg.
		<u>178</u>	
Grŵp Strategol Cynradd (GYDCA) / Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd	Gwariant	21	Darpariaeth ar gyfer galw cyfarfodydd strategol a fforymau'r gwasanaeth.
		<u>21</u>	
<b>CYFANSWM - ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH</b>		<u><u>2,723</u></u>	
<b>GWASANAETHAU ANSAWDD YSGOLION</b>			
Canolfan Busnes Addysg	Gwariant	423	Darpariaeth ar gyfer cefnogaeth rheolaeth effeithiol i ysgolion. <b>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</b> Llawn Amser: 2 Rhan Amser: 8
	Incwm - Ad-daliadau	(343)	
		<u>80</u>	
Hwb Siarter Iaith Gwynedd & Môn	Gwariant	72	Darpariaeth ar gyfer un swydd llawn amser Cydlynnydd Siarter Iaith Gwynedd a Môn. <b>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</b> Llawn Amser: 1
	Incwm	(36)	
	Incwm - Ad-daliadau	(35)	
		<u>0</u>	
Siarter Iaith Uwchradd	Gwariant	76	Darpariaeth ar gyfer un swydd llawn amser i gyflawni Siarter Iaith Uwchradd. <b>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</b> Llawn Amser: 1
		<u>76</u>	
Y Gyfundrefn Drochi - Canolfannau Iaith	Gwariant	946	Darpariaeth cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog. <b>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</b> Llawn Amser: 8 Rhan Amser: 6
	Incwm - Ad-daliadau	(946)	
		<u>0</u>	
Cydlynwyr Iaith	Gwariant	60	Cyfraniad i ysgolion i rhyddhau cydlynwyr iaith yn ystod y flwyddyn.
	Incwm - Ad-daliadau	(60)	
		<u>0</u>	



**ADDYSG**

		<b>Cyllideb 2025/26 £'000</b>	
Gwasanaethau Cerdd Ysgolion	Gwariant	302	Darpariaeth tuag at ariannu Cwmni Cerdd William Mathias a cherddorfeydd sirol, Codi'r To a chronfa ar gyfer hyrwyddo gwaith y Gwasanaeth Cerdd. Mae'r gyllideb yn cynnwys grant gan y WLGA i gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol.
	Incwm	<u>(166)</u>	
		<u>136</u>	
Uned Moderneiddio Ysgolion	Gwariant	502	Darpariaeth ar gyfer tîm sydd yn edrych ar Strategaeth Ysgolion y Sir. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i>
		<u>502</u>	
Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar	Gwariant	21	Darpariaeth ar gyfer swydd Uwch Reolwr rhan amser, ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Plant.
		<u>21</u>	
Cylchoedd Meithrin - (Addysg 3 Oed 10 Awr Am Ddim)	Gwariant	578	Darpariaeth ar gyfer addysg feithrin rhan amser i blant yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed mewn sefydliadau heb fod yn ysgolion (Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd Preifat). <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i>
		<u>578</u>	
Athrawon Cefnogol (Athrawon 10%)	Gwariant	292	Darpariaeth addysg gan athro cymwysedig yn y Cylchoedd Meithrin. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i>
	Incwm - Ad-daliadau	<u>(239)</u>	
		<u>53</u>	
Gwasanaeth Gwella Addysg	Gwariant	665	Cyllideb Addysg tuag at wella ysgolion, yn cynnwys cyfraniad yr Adran Addysg i GwE trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth am gyfnod 2 fis hyd at 31/05/2025.
		<u>665</u>	
Prosiect Addysg ac Hyfforddiant Ôl 16	Gwariant	210	Cynllun yn sefydlu a gweithredu Consortiwm Dysgu ôl-16 Gwynedd a Môn. Ariennir trwy gyfraniadau partneriaid. Gwynedd, Môn, Grwp Llandrillo Menai, a'r Ysgolion. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i>
	Incwm	(131)	
	Incwm - Ad-daliadau	<u>(79)</u>	
		<u>0</u>	
Llwybrau Dysgu 14-16	Gwariant	444	Cyllideb ysgolion uwchradd i sicrhau bod dewis ehangach a hyblygrwydd o ran rhaglenni a ffyrdd o ddysgu ar gael i ddysgwyr blwyddyn 10 a 11.
	Incwm - Ad-daliadau	<u>(431)</u>	
		<u>13</u>	
Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion	Gwariant	4	Cyllideb ar gyfer prynu cynllun Sialens Darllen Haf, gan Gwasanaeth Llyfrgell y Sir.
		<u>4</u>	
Grant Datblygu Disgyblion ( <b>ISB Canolig</b> )	Gwariant	2,879	Grant Llywodraeth Cymru i ysgolion wedi'i dargedu at helpu disgyblion o gefndir difreintiedig i gyflawni eu potensial ac i gyfrannu yn y ffordd orau bosib at gymdeithas a'r economi.
	Incwm	<u>(2,879)</u>	
		<u>0</u>	

**ADDYSG**

		<b>Cyllideb 2025/26 £'000</b>	
Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal	Gwariant	47	Cyllideb i dargedu plant mewn gofal i gyflawni eu potensial ac i gyfrannu yn y ffordd orau bosib. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 1
		<u>47</u>	
Grant Addysg Awdurdodau Lleol	Gwariant	11,140	Prif Grant Llywodraeth Cymru ar Addysg (gan gynnwys arian i Ysgolion). Targedir 4 Pennawd: Safonau; Tegwch; Diwygio a Cymraeg 2050.
	Incwm	(10,446)	
		<u>694</u>	
<b>CYFANSWM - GWASANAETHAU ANSAWDD YSGOLION</b>		<u>2,870</u>	
<b>ISADEILEDD A GWASANAETHAU CEFNOGOL</b>			
<b>CLUDIANT</b>			
Cludiant Ysgolion	Gwariant	7,649	Darpariaeth ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol / coleg yn unol â gofynion statudol a pholisiau cyfredol. Darperir cludiant trwy ddefnyddio contractau cludiant cyhoeddus a chontractau penodol gan ddefnyddio bysiau, bysiau mini, trenau, tacsis a rhieni.
	Incwm	(7)	
		<u>7,641</u>	
<b>CYFANSWM - CLUDIANT</b>		<u>7,641</u>	
<b>COSTAU GAN YR ADRAN ADDYSG AR RAN YSGOLION (TRAWS SECTOR) CYNRADD UWCHRADD ARBENNIG A DILYNOL</b>			
Llanw Canolog	Gwariant	39	Darpariaeth ar gyfer athrawon llanw oherwydd absenoldebau yn deillio o gyfarfodydd a drefnir gan yr Awdurdod, athrawon yn gweithredu ar Bwyllgorau Addysg, Gwasanaeth Rheithgor a chyfrifoldebau undebol.
		<u>39</u>	
Cynnal a Chadw ac Eiddo	Gwariant	1,186	Cyllideb ar gyfer cynnal a chadw adeiladau gan gynnwys trethi ar eiddo heb fod yn ysgol. Mae'r gyllideb hefyd yn darparu am incwm rhent i dai ysgolion sydd ym meddiant yr Adran.
	Incwm	(11)	
	Incwm - Ad-daliadau	(9)	
		<u>1,166</u>	
Cyrsiau Disgyblion	Gwariant	71	Cyrsiau preswyl i ddisgyblion hŷn (yn bennaf).
		<u>71</u>	
Grantiau Cyffredinol	Gwariant	44	Cyfraniadau blynyddol i gyrff allanol sydd yn darparu cyngor neu wasanaeth i ysgolion yn benodol SNAP Cymru.
		<u>44</u>	
Grantiau Dillad	Gwariant	36	Grantiau i rieni brynu gwisgoedd ysgol i ddisgyblion Uwchradd blynyddoedd 8,9,10 ac 11 sydd yn cwrdd â'r meini prawf.
		<u>36</u>	

**ADDYSG**

**Cyllideb  
2025/26  
£'000**

Tanysgrifiadau a Thrwyddedau Ysgolion	Gwariant	76	Cytundeb rhwng yr Awdurdod a chyrrff allanol am drwyddedau/hawlfraint ac yn y blaen.
		<u>76</u>	
Yswiriannau Ysgolion	Gwariant	750	Cost yswiriant ar gyfer sefydliadau addysgol, staff, llywodraethwyr, cerbydau ac arian.
		<u>750</u>	
Cynradd - CLG's Canolog - Ysgolion	Incwm - Ad-daliadau	(409)	Incwm ad-daliadau gan Ysgolion ar gyfer costau canolog trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth er enghraifft - Gwasanaeth Rheoli Banc ac Adnoddau Dynol.
		<u>(409)</u>	
Grant Ôl-16	Incwm	(33)	Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Ôl 16 mewn ysgolion - elfen ganolog.
		<u>(33)</u>	
Arolygiadau Offer Chwaraeon	Gwariant	3	Cyllideb tuag at cynnal archwiliadau iechyd a diogelwch ar offer chwaraeon ysgolion.
	Incwm - Ad-daliadau	(1)	
		<u>3</u>	
<b>CYFANSWM - COSTAU GAN YR ADRAN ADDYSG AR RAN YSGOLION (TRAWS SECTOR)</b>		<u>1,742</u>	
<b>ISADEILEDD</b>			
Uned Data a Mynediad Addysg	Gwariant	203	Darpariaeth ar y cyd gyda Chyngor Môn ar gyfer cydlynu a rheoli systemau craidd a dadansoddi gwybodaeth yr Adran yn ogystal â threfniadau mynediad plant i'r ysgolion.
	Incwm	(75)	<i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i>
		<u>128</u>	Llawn Amser: 4
Hyfforddi Llywodraethwyr	Gwariant	106	Darpariaeth ar gyfer y rhaglen i hyfforddi llywodraethwyr.
	Incwm - Ad-daliadau	(13)	<i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i>
		<u>93</u>	Llawn Amser: 2
Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd (DBS) <b>(ISB Canolig)</b>	Gwariant	53	Cyllideb i sicrhau bod gan bob gweithiwr ysgol DBS cyfredol.
		<u>53</u>	
Ysgolion Wedi Cau <b>(ISB Canolig)</b>	Gwariant	228	Arbedion o gau ysgolion, sydd yn ariannu costau cynnal safleoedd hyd nes y gwerthir.
		<u>228</u>	
Ymweliadau Ysgolion (Tramor)	Gwariant	23	Cost darparu adroddiadau arbenigol cyn i ysgolion ymweld â gwledydd tramor
		<u>23</u>	Gweithredir drwy gytundeb gyda Chyngor Conwy.
Addysg Bellach - Grantiau Dewisol	Gwariant	21	Darpariaeth ar gyfer gwobrwyo grantiau, ar ddisgresiwn yr Adran Addysg, i ddisgyblion Addysg Bellach.
		<u>21</u>	

**ADDYSG**

**Cyllideb  
2025/26  
£'000**

Ysgoloriaeth Coleg Cymraeg	Gwariant	4	<hr/> <hr/>	Cyfraniad yr Adran Addysg tuag at Ysgoloriaeth Coleg Cymraeg. Mae'r myfyrwyr llwyddiannus yn derbyn £1,000 am 3 mlynedd.
		4		
Strategaeth Ddigidol Ysgolion - cyfraniad	Gwariant	104	<hr/> <hr/>	Cyfraniad yr Adran Addysg at Strategaeth Ddigidol Ysgolion.
		104		
Nawdd Gymunedol	Gwariant	17	<hr/> <hr/>	Darpariaeth ar gyfer defnydd am ddim o adeiladau yr Adran i fudiadau Ieuenctid ynghyd â thalu goramser gofalwyr. Mae'r cytundeb yn cynnwys taliadau blynyddol i Ganolfan Cymdeithas y Parc a Chanolfan Brynchrug. Hefyd yn cynnwys Incwm gan Bwyllgor Rheoli Ysgolion Cymunedol am ad-daliad costau rhedeg y canolfannau.
	Incwm	(4)		
		13		
Y Grant Hanfodion Ysgol (GDD Mynediad gynt)	Gwariant	328	<hr/> <hr/>	Grant gan Lywodraeth Cymru i brynu gwisg ysgol ac offer eraill i deuluoedd ar incwm isel.
	Incwm	(328)		
		0		
Neuadd Chwaraeon Blaenau Ffestiniog <b>(ISB Canolig)</b>	Gwariant	85	<hr/> <hr/>	Darpariaeth ar gyfer costau rhedeg Neuadd Chwaraeon Ysgol Y Moelwyn.
		85		
Arian Wrth Gefn Ysgolion <b>(ISB Canolig)</b>	Gwariant	310	<hr/> <hr/>	Cyllideb i gwrdd ag amgylchiadau penodol arbennig nas rhagwelwyd mewn ysgolion.
		310		
Tal Trothwy Athrawon <b>(ISB Canolig)</b>	Gwariant	22	<hr/> <hr/>	Darpariaeth ar gyfer athrawon cynradd yn symud i drothwy lefel uwch ym mis Medi. Mae'r cost ychwanegol yn cael ei ddatganoli i'r ysgol am y flwyddyn yn unig.
		22		
<b>CYFANSWM - ISADEILEDD</b>		<b>1,084</b>	<hr/> <hr/>	
<b>GWASANAETHAU ATODOL</b>				
Rheolaeth a Gweinyddiaeth Arlwyath a Glanhau	Gwariant	765	<hr/> <hr/>	Darpariaeth ar gyfer rheolaeth a gweinyddiaeth y gwasanaeth arlwyath a glanhau. <b>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</b>
	Incwm	(59)		
	Incwm - Ad-daliadau	(660)		
		45		Llawn Amser: 8
Arlwyath Ysgolion	Gwariant	9,874	<hr/> <hr/>	Darparu gwasanaeth arlwyath i ysgolion Gwynedd. <b>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</b>
	Incwm	(3,547)		
	Incwm - Ad-daliadau	(6,328)		
		0		Rhan Amser: 344
Glanhau/Gofalu Ysgolion	Gwariant	3,145	<hr/> <hr/>	Gwasanaeth Glanhau a Gofalu. <b>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</b>
	Incwm	(37)		
	Incwm - Ad-daliadau	(3,109)		
		0		Rhan Amser: 281

**ADDYSG**

		<b>Cyllideb 2025/26 £'000</b>	
Brecwast Am Ddim a Chlwb Gofal Cyn Ysgol <b>(ISB Canolig)</b>	Gwariant Incwm	1,100 <u>(140)</u> <u>960</u>	Darpariaeth brecwast ar gyfer ysgolion cynradd (gan gynnwys ysgol dilynol) y Sir, yn cynnwys incwm gan rieni am blant cyn clwb brecwast. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Rhan Amser: 231
Gwasanaeth Llefrith	Gwariant Incwm	136 <u>(136)</u> <u>0</u>	Darpariaeth llefrith i blant ysgolion cynradd, ariennir gan Lywodraeth Cymru, DEFRA ac Adran Iechyd Llywodraeth Ganolog.
Blas Am Oes	Gwariant	<u>57</u> <u>57</u>	Darpariaeth i godi safonau maeth y mae disgyblion yn ei fwyta. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 1
Uned Iechyd a Diogelwch Ysgolion	Gwariant	<u>58</u> <u>58</u>	Cefnogaeth Iechyd a Diogelwch i Ysgolion. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 1
Cynnal Tiroedd	Gwariant	<u>1</u> <u>1</u>	Darpariaeth ar gyfer gwaith tu allan i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar diroedd ysgolion.
<b>CYFANSWM - GWASANAETHAU ATODOL</b>		<u>1,121</u>	
<b>CYFANSWM - ISADEILEDD A GWASANAETHAU CEFNOGOL</b>		<u>11,589</u>	
<b>ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL, CYNHWYSIAD A LLES</b>			
<b>ADYaCh GWYNEDD A MÔN</b>			
Anghenion Addysgol Ychwanegol - Rheolaeth	Gwariant Incwm	251 <u>(74)</u> <u>177</u>	Rheolaeth y gwasanaeth ADYaCh. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 1
Gweinyddol ac Ansawdd	Gwariant Incwm	259 <u>(130)</u> <u>130</u>	Uwch Swyddogion ADYaCh. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 3
Swyddogion Ansawdd	Gwariant Incwm	327 <u>(82)</u> <u>245</u>	Swyddogion Ansawdd ADYaCh. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Rhan Amser: 4

**ADDYSG**

**Cyllideb  
2025/26  
£'000**

Uned Gweinyddol	Gwariant Incwm	356	Swyddogion Gweinyddol ADYaCh. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i>		
		<u>(121)</u>		Llawn Amser:	8
		<u>235</u>		Rhan Amser:	1
Blynyddoedd Cynnar	Gwariant Incwm	79	Swyddogion Blynyddoedd Cynnar. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i>		
		<u>(32)</u>		Rhan Amser:	1
		<u>48</u>			
ADYaCh - Gorbenion	Gwariant Incwm	54	Gorbenion y gwasanaeth ADYaCh.		
		<u>(54)</u>			
		<u>0</u>			
Swyddog Ansawdd Ôl-16	Gwariant Incwm	79	Swyddog Ansawdd Ôl-16 ADYaCh. <i>Nifer o Staff yn y Gyllideb 2025/26:-</i>		
		<u>(32)</u>		Rhan Amser:	1
		<u>48</u>			
Tîm Ymddygiad a Swyddog Cynhwysiad	Gwariant Incwm	794	Darparu cefnogaeth i ddisgyblion bregus o fewn ysgolion prif lif y Sir. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i>		
		<u>(328)</u>		Llawn Amser:	7
		<u>465</u>		Rhan Amser:	8
Gwasanaeth Cwnsela	Gwariant Incwm	301	Darpariaeth cwnsela ar gyfer pob disgybl ysgol, gan roi'r hyder iddynt y caiff eu hanghenion eu deall a'u datrys. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i>		
		<u>(120)</u>		Rhan Amser:	6
		<u>180</u>			
Gwasanaeth Lles	Gwariant Incwm	544	Nod y Gwasanaeth yw galluogi plant a phobl ifanc i elwa'n llawn o'r ddarpariaeth addysgol a gyflwynir gan ysgolion neu 'fel arall'. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i>		
		<u>(218)</u>		Llawn Amser:	2
		<u>326</u>		Rhan Amser:	10
CAMHS	Gwariant	<u>16</u>	Darpariaeth ar gyfer y gyllideb Iechyd Meddwl mewn partneriaeth a BCUHB.		
		<u>16</u>			
Gwasanaeth Seicoleg Addysg	Gwariant Incwm	665	Darpariaeth i hwyluso ymateb addas a rhesymol pobl ifanc sydd yn profi anawsterau dysgu ychwanegol. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i>		
		<u>(272)</u>		Llawn Amser:	5
		<u>393</u>		Rhan Amser:	4

**ADDYSG**

		<b>Cyllideb 2025/26 £'000</b>	
Cyfathrebu a Rhyngweithio	Gwariant Incwm	1,031 <u>(392)</u> <u>639</u>	Darpariaeth ar gyfer Canolfannau Anhwylderau Iaith a Chanolfannau Cyfathrebu Cymdeithasol. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 7 Rhan Amser: 17
Gwasanaeth Meddygol a Chorfforol	Gwariant Incwm	129 <u>(52)</u> <u>78</u>	Darpariaeth yn ystyried goresgyn unrhyw rwystr sy'n bodoli i ddisgybl gyda Nam Synhwyraidd gael mynediad llawn i'r cwricwlwm. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 2
Gwasanaeth NAM Clyw	Gwariant Incwm	231 <u>(92)</u> <u>139</u>	Darpariaeth yn ystyried goresgyn unrhyw rwystr sy'n bodoli i ddisgybl gyda Nam Clyw gael mynediad llawn i'r cwricwlwm. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 2 Rhan Amser: 2
Gwasanaeth NAM Golwg	Gwariant Incwm	318 <u>(127)</u> <u>191</u>	Darpariaeth yn ystyried goresgyn unrhyw rwystr sy'n bodoli i ddisgybl gyda Nam Golwg gael mynediad llawn i'r cwricwlwm. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 3 Rhan Amser: 3
ADYaCh - Penodol ac Amhenodol	Gwariant Incwm	283 <u>(91)</u> <u>192</u>	Darpariaeth ar gyfer "Ymestyn Allan", Gwybyddiaeth a Dysgu yn cynnwys anawsterau rhifedd, llythrennedd a dyslecsia. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 3 Rhan Amser: 1
Therapyddion Iaith	Gwariant Incwm	200 <u>(80)</u> <u>120</u>	Darpariaeth ar gyfer Therapyddion Iaith, sy'n cael eu cyflogi gan y Bwrdd Iechyd.
ADYaCh - Unedau Asesu Blynyddoedd Cynnar	Gwariant Incwm Incwm - Ad-daliadau	496 <u>(150)</u> <u>(48)</u> <u>298</u>	Darpariaeth ar gyfer "Unedau Asesu Blynyddoedd Cynnar Gwynedd a Môn". <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 4 Rhan Amser: 6
<b>CYFANSWM - ADYaCh GWYNEDD A MÔN</b>		<u>3,919</u>	

**ADDYSG**

**Cyllideb  
2025/26  
£'000**

**ADYaCh GWYNEDD YN UNIG**

All-Sirol	Gwariant	1,078	Cyllideb ar gyfer cymorth ychwanegol i blant siroedd eraill ac i blant o Wynedd sydd yn mynychu ysgolion tu allan i'r ffin. Incwm o ddisgyblion yn mynychu ysgolion Gwynedd ond sy'n byw tu allan i Wynedd.
	Incwm	(110)	
		<u>968</u>	
Adnoddau ADY Ysgolion	Gwariant	18	Darpariaeth ar gyfer adnoddau ADY y sector Cynradd ac Uwchradd.
		<u>18</u>	
Saesneg fel Iaith Ychwanegol	Gwariant	154	Cyllideb ar gyfer disgyblion nad yw'n medru siarad Saesneg. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 3 Rhan Amser: 2
	Incwm	(154)	
		<u>0</u>	
Gwasanaeth Diogelu	Gwariant	56	Cyllideb i gefnogi diogelwch plant mewn ysgolion. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 1
		<u>56</u>	
Cynllun Cyfeirio Blynyddoedd Cynnar	Gwariant	100	Cyllideb i gefnogi Cylchoedd Meithrin gyda'r Cynllun Cyfeirio Blynyddoedd Cynnar.
		<u>100</u>	
Cyllideb Ymddygiad CA4	Gwariant	507	Cyllideb i gefnogi ymddygiad disgyblion Cyfnod Allweddol 4 mewn ysgolion.
	Incwm	(205)	
		<u>302</u>	
Tîm Blynyddoedd Cynnar Gwynedd	Gwariant	214	Cyllideb i ariannu tîm blynyddoedd Cynnar Gwynedd. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 3 Rhan Amser: 2
		<u>214</u>	
		<u>214</u>	
<b>CYFANSWM - ADYaCh GWYNEDD YN UNIG</b>		<u>1,658</u>	
<b>CYFANSWM - ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL, CYNHWYSIAD A LLES</b>		<u>5,578</u>	



**ADDYSG**

		<b>Cyllideb 2025/26 £'000</b>	
<b>GWASANAETH IEUENCTID</b>			
Rheolaeth Ieuenctid	Gwariant	79	Cyllideb rheolaeth y gwasanaeth Ieuenctid. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 1 Rhan Amser: 1
		<u>79</u>	
Clybiau Ieuenctid	Gwariant	206	Clybiau Ieuenctid sy'n cael eu darparu ar ran cyngorau cymuned a thref.
	Incwm	(10)	
		<u>197</u>	
Gwaith Ieuenctid Cymunedol	Gwariant	266	Cyllideb i gynnal gweithgareddau ieuenctid mewn cymunedau. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 1 Rhan Amser: 25
		<u>266</u>	
Cymorth Ieuenctid 11-19 Oed	Gwariant	253	Gweithwyr Ieuenctid yn darparu gwaith ieuenctid, achrediadau a gweithgareddau mewn ysgolion a chymunedau. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 4 Rhan Amser: 2
	Incwm	(49)	
		<u>203</u>	
Cymorth Ieuenctid 16+	Gwariant	111	Gweithwyr Ieuenctid yn rhoi cefnogaeth bersonol i bobl ifanc 16 oed throsodd gyda'u anghenion personol, emosiynol, cymdeithasol. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 2
	Incwm - Ad-daliadau	(16)	
		<u>95</u>	
Cwricwlwm a Hyfforddiant	Gwariant	172	Cyllideb ar gyfer achrediadau, hyfforddiant pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 3
		<u>172</u>	
Grant Cymorth Ieuenctid	Gwariant	449	Grant Llywodraeth Cymru i gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau Ieuenctid. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 9
	Incwm	(449)	
		<u>0</u>	
<b>CYFANSWM - GWASANAETH IEUENCTID</b>		<u>1,012</u>	

**ADDYSG**

**Cyllideb  
2025/26  
£'000**

EITEMAU MEMORANDWM

**CRYNODEB GWASANAETH ADDYSG**

CYFANSWM - CYLLIDEB UNIGOL YSGOLION	101,000
CYFANSWM - ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH	2,723
CYFANSWM - GWASANAETHAU ANSAWDD YSGOLION	2,870
CYFANSWM - ISADEILEDD A GWASANAETHAU CEFNOGOL	11,589
CYFANSWM - ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL, CYNHWYSIAD A LLES	5,578
CYFANSWM - GWASANAETH IEUENCTID	1,012
	<u><b>124,772</b></u>

**CRYNODEB GWASANAETH ADDYSG**

Cyfanswm Gwariant Gros	165,476
Cyfanswm Incwm	(28,275)
Cyfanswm Ad-daliadau	(12,429)
Gwariant Net	<u><b>124,772</b></u>

**CRYNODEB GWASANAETH ADDYSG**

Cyfanswm ISB Uniongyrchol	101,000
Cyfanswm ISB Canolig	2,090
Cyfanswm Gwariant heb fod yn ISB	21,681
Gwariant Net	<u><b>124,772</b></u>

**GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

		<b>Cyllideb 2025/26 £'000</b>	
Rheolaeth Gwasanaethau Corfforaethol	Gwariant	<u>412</u> <u>412</u>	Cefnogi gallu'r Cyngor i ddarparu'r gorau ar gyfer pobl Gwynedd trwy gyfuniad o wasanaethau arbenigol, cefnogol a rheng-flaen. <b><i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i></b> Llawn Amser: 5
Cynllunio Argyfwng	Gwariant	<u>106</u> <u>106</u>	Rheoli a monitro'r cytundeb efo'r Gwasanaeth Rhanbarthol.
Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Gwariant	<u>465</u> <u>465</u>	Darparu gwybodaeth a chynnal deialog ddwy-ffordd efo trigolion Gwynedd a staff y Cyngor. <b><i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i></b> Llawn Amser: 6 Rhan Amser: 2
Ymchwil a Gwybodaeth Ymchwil a Gwybodaeth	Gwariant Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill Incwm	456 (21) <u>(5)</u> <u>430</u>	Datblygu gallu'r Cyngor i ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth i ddod i gasgliadau dibynadwy a'r penderfyniadau gorau ar gyfer pobl Gwynedd, yn ogystal â chynorthwyo gwasanaethau'r Cyngor i reoli gwybodaeth a chynghori ar geisiadau am wybodaeth a dderbynnir gan y cyhoedd. <b><i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i></b> Llawn Amser: 7 Rhan Amser: 1
Ymchwil a Gwybodaeth iGwynedd	Gwariant	<u>67</u> <u>67</u>	Darparu a datblygu system i greu, cadw a rhannu gwybodaeth electroneg yn effeithiol a diogel. <b><i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i></b> Llawn Amser: 1
Democratiaeth ac Iaith Democratiaeth	Gwariant Incwm	2,753 (62) <u>2,691</u>	Cefnogi trefniadau democrataidd a galluogi Cynghorwyr i gyflawni gwaith ar gyfer pobl Gwynedd. <b><i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i></b> Llawn Amser: 7 Rhan Amser: 3

**GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

		<b>Cyllideb 2025/26 £'000</b>	
Democratiaeth ac Iaith Cyfieithu ac Iaith	Gwariant	638	Darparu gwasanaeth cyfieithu i'r Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig ynghyd â hybu a hyrwyddo defnydd o'r <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i>
	Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(100)	
	Incwm	(121)	Llawn Amser: 8
		<u>417</u>	Rhan Amser: 5
Caffael	Gwariant	198	Galluogi'r Cyngor i gael gwerth am arian a chadw'r budd yn lleol. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i>
		<u>198</u>	
			Llawn Amser: 3
Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol	Gwariant	809	Cydwethio efo gwasanaethau i sicrhau bod arferion arwain a rheoli a'r amodau gwaith cysylltiedig yn briodol ac yn ddarparu'r gwasanaeth gorau. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i>
	Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(12)	
	Incwm	(19)	Llawn Amser: 10
		<u>778</u>	
Gwasanaeth Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant	Gwariant	730	Cynghori swyddogion, cynghorwyr a llywodraethwyr ysgolion i warchod iechyd, diogelwch a llesiant staff a phobl Gwynedd. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i>
	Incwm	(109)	
		<u>621</u>	Llawn Amser: 9
			Rhan Amser: 2
Gwasanaeth Cefnogol	Gwariant	1,070	Darparu cefnogaeth weinyddol gyffredinol ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i>
	Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(387)	
	Incwm	(20)	Llawn Amser: 21
		<u>663</u>	Rhan Amser: 1
Dysgu a Datblygu'r Sefydliad	Gwariant	677	Darparu gwasanaeth ymgynghorol a chynnig cyfleoedd dysgu a datblygu i alluogi staff a chynghorwyr i gwrdd ag anghenion gan hyrwyddo diwylliant sy'n caniatáu i staff fod ar eu gorau. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i>
	Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(57)	
	Incwm	(256)	Llawn Amser: 11
		<u>364</u>	Rhan Amser: 4

**GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

		<b>Cyllideb 2025/26 £'000</b>	
Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau	Gwariant Incwm	386 (369) <u>17</u>	Darparu gwasanaeth cofrestru priodasau, genedigaethau a marwolaethau. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 4 Rhan Amser: 5
Cyswllt Cwsmer Siop Gwynedd a Galw Gwynedd	Gwariant Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill Incwm	983 (51) (30) <u>903</u>	Gweithredu fel siop un stop a derbynfa i'r cyhoedd yn Nolgellau, Pwllheli a Chaernarfon. Darparu gwasanaeth ymateb i alwadau cheisiadau ac ymholiadau ar-lein yn y ganolfan ym Mhenrhyndeudraeth. <i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i> Llawn Amser: 10 Rhan Amser: 20
<b>CYFANSWM NET GWASANAETHAU CORFFORAETHOL</b>		<b><u>8,130</u></b>	

EITEMAU MEMORANDWM

**CRYNODEB GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

Cyfanswm Gwariant	9,747
Cyfanswm Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(627)
Cyfanswm Incwm	(991)
Gwariant Net	<u><b>8,130</b></u>

**CYLLID**

		<b>Cyllideb 2025/26 £'000</b>	
Rheolaeth Adran Cyllid	Gwariant	414	Cefnogi gweithrediad busnes y Cyngor a'i wasanaethau wrth reoli, gwarchod a
	Incwm	(64)	datblygu ei sefyllfa ariannol.
		<u>349</u>	<b><i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i></b>
			Llawn Amser: 4
Cyllid a Chyfrifeg	Gwariant	2,041	Darparu gwasanaeth cyllid a chyfrifeg, a chynorthwyo a chefnogi gwasanaethau i fod
	Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(112)	yn effeithiol ac yn effeithlon.
	Incwm	(246)	<b><i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i></b>
		<u>1,683</u>	Llawn Amser: 34
			Rhan Amser: 3
Cyflogau	Gwariant	462	I dalu staff yn gywir ac ar amser, a hefyd cadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff
	Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(42)	allanol fel CThEF (HMRC).
	Incwm	(91)	<b><i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i></b>
		<u>330</u>	Llawn Amser: 8
			Rhan Amser: 1
Taliadau	Gwariant	239	Talu credydwy'r Cyngor yn gywir ac yn amserol.
	Incwm	0	<b><i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i></b>
		<u>239</u>	Llawn Amser: 4
			Rhan Amser: 3
Yswiriant a Rheoli Risg	Gwariant	153	Cefnogi adrannau wrth iddynt asesu'r bygythiadau a chyfleoedd all eu hwynebu wrth
	Incwm	(152)	ddarparu eu gwasanaethau a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad.
		<u>1</u>	<b><i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i></b>
			Llawn Amser: 3
Archwilio Mewnol	Gwariant	349	Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau
	Incwm	(41)	llywodraethu, trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r
		<u>308</u>	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
			<b><i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i></b>
			Llawn Amser: 6
Treth Cyngor a Threth Annomestig	Gwariant	1,472	Casglu trethi yn brydlon ac effeithlon, gan geisio bod yn hyblyg a chydymdeimladol i
	Incwm	(742)	amgylchiadau unigolion.
		<u>730</u>	<b><i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i></b>
			Llawn Amser: 23
			Rhan Amser: 3

**CYLLID**

		<b>Cyllideb 2025/26 £'000</b>	
Budd-daliadau	Gwariant	1,006	Prosesu ceisiadau megis Budd-dal Tai, Gostyngiad Treth Cyngor a Cinio am Ddim yn brydlon a chywir, er mwyn rhoi cymorth i ddinasyddion Gwynedd i dalu eu rhenti a biliau ac i sicrhau fod plant Gwynedd yn derbyn y gefnogaeth briodol. <b><i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i></b> Llawn Amser: 18 Rhan Amser: 3
	Incwm	(412)	
		<u>594</u>	
Incwm	Gwariant	636	Prosesu incwm amrywiol a chasglu dyledion yn brydlon ac effeithlon er mwyn uchafu incwm, wrth ystyried anghenion yr adrannau a gweithredu'n sensitif i amgylchiadau ariannol dyledwyr. <b><i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i></b> Llawn Amser: 10
	Incwm	(7)	
		<u>629</u>	
Pensiynau	Gwariant	1,334	Gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 cyflogwr er mwyn cyfrifo a thalu pensiynau yn brydlon a chywir. <b><i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i></b> Llawn Amser: 22 Rhan Amser: 1
	Ad-daliadau Gwasanaethau Eraill	(24)	
	Incwm	(1,330)	
		<u>(20)</u>	
Technoleg Gwybodaeth Corfforaethol	Gwariant	1,469	Cytundebau meddalwedd a chaledwedd corfforaethol. <b><i>Nifer y staff yng nghyllideb 2025/26:</i></b> Llawn Amser: 1
	Incwm	(50)	
		<u>1,419</u>	
